JUDICIAL
APPOINTMENTS
COMMISSION

. . . . . .

Pecyn Gwybodaeth:

00416: Cadeiryddion Rhanbarthol Tribiwnlysoedd Cyflogaeth (Cymru a Lloegr) 2008

. . . . . .

CYNNWYS

CYFLWYNIAD **1**
YDYCH CHI'N GYMWYS? **2**
ADDASIADAU RHESYMOL **3**
DISGRIFIAD SWYDD **3**
Y BROSES DDETHOL **6**
CYSYLLTIADAU A RHAGOR O WYBODAETH **7**
CANOLWYR A ENWEBIR GAN Y CPB **9**
COMISIYNWYR Y CPB **10**

CYFLWYNIAD

Mae'r Comisiwn Penodiadau Barnwrol (CPB) yn awr yn gwahodd ceisiadau am swyddi Cadeiryddion Rhanbarthol y Tribiwnlysoedd Cyflogaeth. Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw **6 Ionawr 2009**. Mae'r CPB wedi cael cais i ddewis dau Gadeirydd Rhanbarthol i'r Tribiwnlysoedd Cyflogaeth, un yn Rhanbarth Caerdydd, a'r llall yn Rhanbarth Canol Llundain.

Mae'r pecyn hwn yn cynnwys y wybodaeth y bydd ei hangen arnoch am y penodiadau. Mae'n cynnwys y meini prawf cymhwysedd a'r disgrifiad swydd. Mae hefyd yn disgrifio'r broses ddethol y bydd y CPB yn ei dilyn, gyda dyddiadau perthnasol a chyngor am sut i baratoi ar gyfer camau gwahanol y broses hon.

Cyn y gellir ystyried eich penodi, rhaid i chi fodloni rhai gofynion cymhwysedd. Mae'n rhaid i'r CPB hefyd asesu eich cymeriad. Cyn gwneud cais dylech ddarllen y gofynion hyn a'r canllawiau y mae'r CPB yn eu defnyddio i asesu cymeriad. Gellir gweld y rhain ar ein gwefan (www.judicialappointments.gov.uk) ynghyd â braslun o delerau ac amodau'r gwasanaeth a'r telerau penodi ar gyfer y swyddi hyn. Bydd angen i chi ddangos hefyd y rhinweddau a'r galluoedd sy'n ofynnol ar gyfer y swydd hon.

Y Comisiwn Penodiadau Barnwrol annibynnol sy'n dewis ymgeiswyr ar gyfer swyddi barnwrol. Bydd yn gwneud hynny ar sail teilyngdod, drwy gystadleuaeth agored a theg, o blith y dewis ehangaf o ymgeiswyr cymwys.

YDYCH CHI'N GYMWYS?

I fod yn gymwys i'ch penodi'n Gadeirydd Rhanbarthol y Tribiwnlysoedd Cyflogaeth, rhaid i chi fodloni'r gofynion canlynol.

Gofyniad statudol

Rhaid i ymgeiswyr fod yn gadeiryddion cyflogedig i'r Tribiwnlysoedd Cyflogaeth ar hyn o bryd.

Oed

Does dim uchafswm nac isafswm oedran ar gyfer ymgeiswyr, ar wahân i'r oedran ymddeol statudol, sef 70. Rhaid i oedran person a benodir yn Gadeirydd Rhanbarthol y Tribiwnlysoedd Cyflogaeth ganiatáu cyfnod rhesymol o wasanaeth cyn ymddeol, sef tua phum mlynedd fel arfer.

Gofyniad anstatudol

Rhaid i ymgeiswyr sy'n gwneud cais am y swydd wag yng Nghaerdydd fod yn barod i ddilyn hyfforddiant er mwyn cael gwybodaeth ymarferol am yr iaith Gymraeg, os nad oes ganddynt eisoes.

Cenedligrwydd

Rhaid i chi lenwi datganiad o'ch cenedligrwydd yn y Ffurflen Gais. I fod yn gymwys ar gyfer y swydd hon, rhaid i chi fod yn ddinesydd:

- y Deyrnas Unedig; neu
- un o wledydd eraill y Gymanwlad; neu
- Weriniaeth Iwerddon.

Cymeriad

Mae'n ofynnol i'r CPB drwy statud benodi unigolion o gymeriad da yn unig. Er mwyn gwneud yr asesiadau hyn, rydym wedi datblygu Canllawiau ar Gymeriad Da sydd ar gael ar ein gwefan yn www.judicialappointments.gov.uk. Gallwch hefyd ysgrifennu atom i wneud cais am gopi (gweler adran 'Cysylltiadau a Rhagor o Wybodaeth' y pecyn gwybodaeth hwn ar gyfer ein manylion cyswllt).

Mae'r Canllawiau ar Gymeriad Da yn rhoi rhyw syniad i chi ynghylch a oes unrhyw beth yn eich ymddygiad yn y gorffennol neu eich amgylchiadau presennol a allai effeithio ar eich cais am benodiad barnwrol. Dylech eu darllen yn ofalus cyn llenwi'r Ffurflen Gais.

Cymeriad da – cwestiynau a datganiadau

Mae'n ofynnol i chi ateb nifer o gwestiynau yn y Ffurflen Gais sy'n ymwneud â chymeriad da a rhaid i chi wneud datganiadau priodol yn ôl y gofyn.

Nid yw ymgeiswyr am benodiadau barnwrol yn cael eu gwarchod gan adrannau 4(2) a 4(3) Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974. Felly, dylid datgan yn ysgrifenedig unrhyw euogfarnau a fyddai fel arfer yn cael eu hystyried yn rhai sydd wedi darfod dan y Ddeddf honno (Gorchymyn Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) 1975). Rhaid i chi roi manylion pob trosedd yr ydych wedi eich cael yn euog ohono neu wedi cael rhybuddiad mewn cysylltiad ag ef. Dylai'r manylion gynnwys natur pob trosedd, dyddiad yr euogfarn neu'r rhybudd, a'r gosb a gafwyd.

Lle bo achos o unrhyw fath yn yr arfaeth, dylech roi manylion y trosedd yr ydych wedi'ch cyhuddo ohono neu'r broses ddisgyblu yr ydych yn rhan ohoni ac, os yw hynny'n hysbys, dyddiad gwrando'r achos neu'r cam gweithredu. Mae'n bwysig eich bod yn rhoi gwybod i ni am ganlyniad

unrhyw achos neu gam gweithredu a ddaw i ben wrth i'ch cais gael ei ystyried. Yn yr un modd, os cewch eich cyhuddo o unrhyw drosedd neu os deuir ag unrhyw gamau gweithredu yn eich erbyn ar ôl i chi gyflwyno eich cais, dylech roi gwybod i ni ar unwaith (gweler adran 'Cysylltiadau a Rhagor o Wybodaeth' y Pecyn Gwybodaeth hwn).

Ar gyfer pob un, darparwch gymaint ag y bo modd o fanylion a nodwch a oes unrhyw ffactorau lliniarol y dylai'r CPB, yn eich barn chi, eu hystyried wrth asesu eich cymeriad da.

Archwiliadau cymeriad da

Bydd y CPB hefyd yn cynnal archwiliadau o'r holl ymgeiswyr y mae'n bwriadu eu hargymell ar gyfer eu penodi. Bydd rhagor o wybodaeth am yr archwiliadau hyn yn cael ei darparu ar wahân i ymgeiswyr perthnasol.

Os byddwch yn peidio â datgan unrhyw faterion a ddaw i'r golwg yn sgil yr archwiliadau hyn, gall fod yn niweidiol i ganlyniad eich cais.

Gwahardd

Dylech nodi bod Deddf Anghymhwyso Tŷ'r Cyffredin 1975 yn berthnasol i'r swydd hon.

ADDASIADAU RHESYMOL

Mae'r CPB wedi ymrwymo i ystyried unrhyw addasiadau rhesymol sy'n ofynnol i sicrhau y gallwch gyfrannu'n deg at y broses ddethol. Mae'r Ffurflen Gais yn gofyn i chi nodi unrhyw drefniadau ac addasiadau y bydd eu hangen arnoch o bosibl. Ystyrir y ceisiadau ar sail achosion unigol ac ni ddefnyddir yr wybodaeth a roddir i wneud penderfyniadau wrth ddethol.

Os cewch eich argymell ar gyfer y swydd, ystyrir addasiadau rhesymol os oes gennych anabledd yn ôl ystyr y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd. Bydd unrhyw addasiadau rhesymol i'ch galluogi i dderbyn y swydd yn cael eu trafod ar wahân gyda chi gan y Tribiwnlysoedd Cyflogaeth ar ôl i'r CPB wneud ei argymhelliad.

DISGRIFIAD SWYDD

Mae'r wybodaeth ganlynol wedi'i darparu gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

DISGRIFIAD SWYDD

CADEIRYDD RHANBARTHOL (BARNWR CYFLOGAETH) TRIBIWNLYSOEDD CYFLOGAETH (CYMRU A LLOEGR)

Diben y Swydd

Diben swydd farnwrol yw gweinyddu cyfiawnder yn unol â chyfreithiau Cymru a Lloegr.

Awdurdodaeth

Mae Barnwyr Cyflogaeth Rhanbarthol y Tribiwnlysoedd Cyflogaeth yn eistedd ledled Cymru a Lloegr, ar hyn o bryd mewn 12 Swyddfa Ranbarthol, 9 swyddfa ategol a 12 neu ragor o ganolfannau gwrandawiadau. Bydd y Llywydd yn neilltuo Barnwyr Cyflogaeth Rhanbarthol i reoli'r adnoddau barnwrol ac i eistedd mewn Rhanbarthau penodol, er efallai y bydd yn rhaid iddynt eistedd neu reoli mewn mannau eraill o bryd i'w gilydd yn unol ag anghenion y Tribiwnlysoedd. Ar hyn o bryd, mae 12 Barnwr Cyflogaeth Rhanbarthol yn atebol i'r Llywydd am weinyddu cyfiawnder mewn Tribiwnlysoedd yn eu hardaloedd penodol y cawsant eu penodi iddynt.

Prif Weithgareddau

Mae Barnwyr Cyflogaeth Rhanbarthol y Tribiwnlysoedd Cyflogaeth yn arfer cyfrifoldeb dirprwyol, a roddwyd iddynt gan Lywydd y Tribiwnlysoedd Cyflogaeth, dros y canlynol:

- y swyddogaeth reoli farnwrol o restru achosion a chynnal perthynas waith agos â'r Ysgrifennydd Rhanbarthol a'r staff rhestru;

- dyrannu achosion i Farnwyr yn y Rhanbarth;

- cyfansoddiad y Tribiwnlysoedd sy'n gwrando ar achosion yn eu Rhanbarth;

- adrodd i Lywydd y Tribiwnlysoedd Cyflogaeth ynghylch adeiladau ac anghenion barnwrol y Rhanbarth;

- gweithredu cyfarwyddiadau'r Llywydd yng ngoruchwyliaeth gyffredinol gwaith rhestru a gwaith barnwrol y Rhanbarth er mwyn sicrhau gwasanaethau barnwrol effeithlon o safon, mynychu Cynadleddau Barnwyr Cyflogaeth Rhanbarthol ar gais y Llywydd, a chynnig cymorth pellach i'r Llywydd y gall ef neu hi ofyn amdano o bryd i'w gilydd;

- hyfforddiant barnwrol a rheoli safonau barnwrol yn y Rhanbarth, gan gynnwys bodloni'r safonau perfformiad barnwrol hynny a allent gael eu gosod yn genedlaethol ac sydd yn gyson â gwneud penderfyniadau o ansawdd a darparu gwasanaeth teg a chyflym, yn enwedig drwy sicrhau bod pob Barnwr ac Aelod yn glynu wrth y "Safonau ar gyfer Gwrandawiadau mewn Tribiwnlysoedd Cyflogaeth" a luniwyd gan y Llywydd;

- sicrhau safonau uchel wrth reoli achosion, drwy roi arweiniad, cyngor a chymorth priodol;

- ymchwilio i gwynion yn erbyn Barnwyr ac Aelodau yn eu Rhanbarth;

- goruchwylio, gyda staff Tribiwnlys, ddatblygiad achosion tuag at wrandawiad a chwblhau er mwyn sicrhau'r ffordd gyflymaf o ymdrin â'r busnes sy'n gydnaws â buddiannau cyfiawnder.

- cynnal gwerthusiadau perfformiad a datblygu gyda Barnwyr yn eu Rhanbarthau;

- sicrhau bod gan y Rhanbarth gynllun mentora effeithiol; a

- monitro gwyliau ac absenoldeb oherwydd salwch a hysbysu'r Llywydd yn unol â hynny, yn enwedig os oes pryderon yn codi a allai olygu cyfeirio rhywun at Iechyd Galwedigaethol.

- sefydlu a chynnal Grŵp Defnyddwyr lleol effeithiol;

- sefydlu a chynnal perthynas waith dda gyda rheolwyr barnwrol mewn Tribiwnlysoedd eraill y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn y Rhanbarth;

- sefydlu a chynnal perthynas waith effeithiol gydag ACAS yn y Rhanbarth;
- gweinyddu'r rhaglen cyfryngu barnwrol yn eu Rhanbarth;
- cynorthwyo'r Llywydd yn ôl yr angen i sicrhau bod cyfiawnder yn cael ei weinyddu'n deg ac yn effeithlon.
- Ar gyfer y swydd yng Nghymru, rhaid i'r ymgeisydd llwyddiannus fod yn barod i ddilyn hyfforddiant er mwyn cael gwybodaeth ymarferol am yr iaith Gymraeg, os nad oes ganddynt eisoes.

Rhagor o Wybodaeth

Ceir mwy o wybodaeth am y swydd hon ar wefan y CPB:

www.judicialappointments.gov.uk.

Y BROSES DDETHOL

Ffurflen gais

Mae manylion y rhinweddau a'r galluoedd a ddefnyddir i'ch asesu yn y Ffurflen Gais. Gallwch ddefnyddio holl ystod eich gwaith a'ch profiad personol i ddangos y rhinweddau a'r galluoedd hyn, gan gynnwys, er enghraifft, gwaith gwirfoddol neu unrhyw gyhoeddiad yr ydych wedi cyfrannu ato. Byddwch yn benodol wrth roi gwybodaeth.

Amserlen

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau	**6 Ionawr 2009**
Dyddiad(au) posib y cyfweliadau	**24-25 Mawrth 2009**

Llunio'r rhestr fer

Os cewch eich rhoi ar y rhestr fer, cewch eich gwahodd i ddod am gyfweliad. Anfonir manylion pellach gyda'r gwahoddiad i chi fynychu. Mae'n ddrwg gennym na allwn ddarparu esboniadau ysgrifenedig i ymgeiswyr na chânt eu henwi ar y rhestr fer.

Geirdaon

Gallwn geisio gwybodaeth gan bobl sydd mewn sefyllfa dda i roi enghreifftiau o sut yr ydych chi'n bodloni'r rhinweddau a'r galluoedd. Cysylltir â chanolwyr fel arfer cyn i'r didoli ddigwydd ac fe'u hanogir i ddefnyddio deunydd arfarnu os yw ar gael. Fel arfer bydd y deunydd a ddarperir gan y canolwyr yn cyfrannu at y penderfyniadau a wneir yn y cam didoli, yn y cyfweliad ac adeg penderfyniadau dethol terfynol y Comisiynwyr.

<u>Canolwyr a enwebir gan yr ymgeiswyr</u>

Fe'ch gwahoddir i enwebu hyd at dri chanolwr sy'n eich adnabod yn dda naill ai'n bersonol neu'n broffesiynol. **Rydym yn argymell yn gryf eich bod yn holi eich canolwr nad ydych yn eu rhoi mewn sefyllfa anodd.**

<u>Canolwyr a enwebir gan y CPB</u>

Mae'n bosibl hefyd y bydd y CPB yn gofyn am eirdaon gan y rhai a nodir yn adran 'Canolwyr a Enwebir gan y CPB' y pecyn hwn.

Darparwch enw, teitl, swydd a chyfeiriad eich canolwyr proffesiynol a barnwrol perthnasol. Gallwch ddweud wrthym hefyd os nad ydych yn dymuno i ni gysylltu â'ch canolwr proffesiynol perthnasol ar hyn o bryd, ond mae'n rhaid i chi roi rhesymau.

Gwrthdaro buddiannau

Rhestrir y Comisiynwyr Penodiadau Barnwrol yng nghefn y pecyn hwn. Ni ddylech enwebu Comisiynydd fel canolwr. Dylech nodi yn y Ffurflen Gais hefyd os ydych yn perthyn mewn unrhyw ffordd i unrhyw un o'r Comisiynwyr neu'n hysbys iddynt, a rhoi manylion.

Canlyniad yr ymarfer dethol

Fe'ch hysbysir am ganlyniad eich cais drwy lythyr.

Os byddwch yn aflwyddiannus yn ystod y diwrnod dethol, gallwch ofyn am esboniad ysgrifenedig. Dylech wneud y cais hwn o fewn 6 wythnos i ddyddiad y llythyr a oedd yn eich hysbysu na fuoch yn llwyddiannus. Ceisiwn ymateb i'ch cais o fewn pedair wythnos waith.

Trefn gwyno

Os byddwch yn anfodlon ag unrhyw agwedd o'r ffordd yr ymdriniwyd â'ch cais, dylech gyfeirio at drefn gwyno gyhoeddedig y CPB, sydd ar gael oddi ar ein gwefan, neu ar ffurf copi caled ar gais.

CYSYLLTIADAU A RHAGOR O WYBODAETH

Cael ffurflen gais

Mae'r holl wybodaeth ynghylch sut i wneud cais am yr ymarfer dethol hwn ar gael yn www.judicialappointments.org.uk (ymarferion dethol cyfredol).

Gellir derbyn y Ffurflen Gais ar gyfer yr ymarfer dethol hwn ar ffurf electronig trwy ei llwytho oddi ar y wefan.

Cysylltwch â thîm y Gwasanaeth Ceisiadau Penodiadau Barnwrol (GCPB) yn y Comisiwn Penodiadau Barnwrol os ydych am gael copi caled o'r Ffurflen Gais neu'r Pecyn Gwybodaeth, neu os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch cyflwyno'ch cais.

Os bydd angen y ffurflen a/neu'r pecyn arnoch mewn fformat gwahanol, er enghraifft mewn Braille, cysylltwch â thîm y GCPB.

Cydnabod eich cais

Dylech dderbyn cydnabyddiaeth o'ch cais cyn pen 5 diwrnod gwaith i'r dyddiad y derbynnir eich cais. Os na chewch chi gydnabyddiaeth, dylech gysylltu â'r tîm GCPB dros y ffôn neu'r e-bost.

Manylion cysylltu

1. Y Gwasanaeth Ceisiadau Penodiadau Barnwrol

Cyfeirnod: 00416 (Defnyddiwch y cyfeirnod hwn ar bob gohebiaeth)

Comisiwn Penodiadau Barnwrol
2nd Floor, Steel House
11 Tothill Street
Llundain
SW1H 9LH

DX 149822 WESTMINSTER 6

E-bost: jaas@jac.gsi.gov.uk
Ffôn: 0203 334 0123

2. Tîm yr Ymarfer Dethol:

Sheila Newman	020 3334 0082	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Dros Dro
Chukwuma Uju	020 3334 0106	Arweinydd Tîm yr Ymarfer Dethol
Sean Conway	020 3334 0117	Arweinydd Tîm yr Ymarfer Dethol

Cyfeiriadau E-bost:

sheila.newman@jac.gsi.gov.uk

chukwuma.uju@jac.gsi.gov.uk
sean.conway@jac.gsi.gov.uk

Ffacs: 0203 334 0134

3. Cyfarwyddwr:

Sue Bush 0203 334 0567

E-bost: susan.bush@jac.gsi.gov.ukl

CANOLWYR A ENWEBIR GAN Y CPB

Mae’n bosibl y bydd y CPB hefyd yn gofyn am eirdaon o’r categorïau a restrir isod.

Canolwyr Barnwrol

Os ydych yn dal swydd farnwrol nad yw ar y rhestr hon, cysylltwch â'r CPB er mwyn inni allu ystyried pwy ddylai gael ei enwebu fel eich canolwr barnwrol.

Os ydych yn eistedd ar Dribiwnlys - Llywydd y Tribiwnlys neu unigolyn cyfatebol.

Canolwyr proffesiynol

Os ydych yn dwrnai - eich partner rheoli neu bartner ecwiti perthnasol.

Os ydych yn fargyfreithiwr - Pennaeth eich Siambrau.

Os ydych yn gyflogedig - eich rheolwr llinell neu gyfatebol.

Os ydych yn adfocad - Deon Ffacwlti'r Adfocadau (yr Alban yn unig).

COMISIYNWYR Y CPB

Cadeirydd y CPB

Y Farwnes Usha Prashar CBE

Yr Aelodau

Mrs Ustus Jill Black DBE

Y Fonesig Lorna Boreland-Kelly DBE

Yr Athro Fonesig Hazel Genn DBE CF

Y Foneddiges Ustus Heather Hallett DBE

Ei Hanrhydedd y Barnwr Frances Kirkham

Syr Geoffrey Inkin OBE

Mr Edward Nally

Ms Sara Nathan OBE

Barnwr Rhanbarth Charles Newman

Ei Anrhydedd y Barnwr David Pearl

Mr Francis Plowden

Ms Harriet Spicer

Mr Jonathan Sumption OBE CF

Yr Arglwydd Ustus Roger Toulson